

Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (y "Cwmni")

Cofnodion cyfarfod o fwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni, a gynhaliwyd ar Microsoft Teams, ddydd Iau 13 Gorffennaf yn dechrau am 10:40

YN BRESENNOL:	Yr Athro Rudolph Allemann (RKA)	(Yn Cadeirio)
	Darren Xiberras (DX)	Mynychu o Bell
	Joanna Newman (JN)	Mynychu o Bell
	Kirsty Williams (KW)	Mynychu o Bell
	Ben Coates (BC)	Mynychu o Bell
	Piet Van Hove (PVH)	Mynychu o Bell
	Chris Taylor (CT)	Mynychu o Bell (eitem 4 yn unig)
	Roy Skelton (RS)	Mynychu o Bell (eitem 4 yn unig)
	Morgan Armstrong (MA)	Mynychu o Bell (eitem 4 yn unig)
HEFYD YN BRESENNOL:	Susana Galván (SG)	Mynychu o Bell
	Dr Elid Morris (EM)	Mynychu o Bell
	Leah Doherty (LKD)	Mynychu o Bell
	Helen Gentle (HG)	Mynychu o Bell
	Ellie Bevan (EB)	Mynychu o Bell
	Holly Coleman (HC)	Mynychu o Bell (eitem 4 yn unig)

1. RHYBUDD A CHWORWM

- 1.1 Roedd cworwm yn bresennol.
- 1.2 Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod ar agor, a chadarnhawyd bod rhybudd o'r cyfarfod wedi'i roi i bob cyfarwyddwr.
- 1.3 Cydnabu'r Cadeirydd fod JN wedi ymddiswyddo o'r Bwrdd. Gadawodd JN ar yr adeg hon yn y cyfarfod.

1.4 Croesawodd y Cadeirydd y ddau Gyfarwyddwr Annibynnol newydd, BN a PVH.

2. DIBEN Y CYFARFOD

2.1 Adroddodd y Cadeirydd mai pwrpas y cyfarfod oedd ystyried y canlynol, ac os bernir ei fod yn addas, ei gymeradwyo:

2.1.1 Er Gwybodaeth: Diweddariad gan Gorff Gweithredol Rhaglen Taith

2.1.2 I'w Gymeradwyo: Galwad Cyllid Hyrwyddwyr Taith (2023)

2.1.3 I'w Drafod a'i Gymeradwyo: Diweddariad Adolygiad Llywodraethu

2.1.4 Er Gwybodaeth: Diweddariad Cymru Fyd-eang

2.1.5 Er Gwybodaeth: Diweddariad ar Berfformiad Derbynwyr Grantiau

2.1.6 I'w Drafod: Cofrestr Risg Taith

3. BUDDIANNAU CYFARWYDDWYR

3.1 Datgan buddiannau

Gwnaed datganiad o fuddiant gan BC a DX ar 13 Gorffennaf 2023 i gyfarwyddwyr eraill y Cwmni yn unol ag adran 182 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006"), a chafodd ei gymeradwyo yn unol ag Erthygl 15.2 o erthyglau cymdeithasu y Cwmni. Cadarnhaodd yr holl gyfarwyddwyr eraill a oedd yn bresennol nad oedd ganddynt unrhyw fuddiannau i'w datgelu yn y Cynigion, nac unrhyw faterion eraill i'w trafod yn y cyfarfod yn unol ag adrannau 177 neu 182 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ("Deddf 2006") ac erthyglau cyweithio'r Cwmni.

4. COFNODION O GYFARFOD BWRDD Y CYFARWYDDWYR AR 13 GORFFENNAF 2023

Eitem agenda	Pwnc	Camau Gweithredu (A) /Penderfyniadau (D)
1.	Datganiad o Fuddiannau'r Cyfarwyddwyr RKA)	
1.1	Mae PVH a BC wedi llenwi ffurflenni datgan buddiannau Taith cyn y cyfarfod hwn.	
1.2	Datganwyd bod BC yn ymddiriedolwr ar gyfer sefydliad sydd wedi cael grant gan Taith y cyfeirir ato yn y papurau cyfarfod (datganwyd hyn yn flaenorol yn y ffurflen datgan buddiannau).	
1.3	Datganwyd gan DX ei fod, tra oedd yn gweithio i Teach First mewn rôl flaenorol, wedi mentora Uwch Swyddog yn Equal Education Partners.	
2.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r camau gweithredu (RKA)	D1 – Cytunodd y Bwrdd i gyhoeddi'r cofnodion a grynhowyd o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror ar wefan Taith.
2.1	Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod chwarterol ar 13 Ebrill a'r cyfarfod eithriadol ar 20 Mehefin 2023.	

2.2	Trafodwyd y Log Gweithredu o 13 Ebrill 2023 (Gweler Atodiad A am ragor o fanylion), a chytunwyd y gellid marcio A15, A3a, A3b, A5a, A5b ac A6 fel rhai sydd wedi cau.	A1 – Swyddog Gweithredol Rhaglen Taith i gau A3a, A3b, A5a, A5b, A6 ac A15 ar y Log Gweithredu
3.	<p>Er Gwybodaeth: Diweddariad gan Gorff Gweithredol Rhaglen Taith (SG)</p> <p>3.1 Cafodd y Bwrdd grynodedb wedi'i ddiweddarau o weithgareddau Rhaglen Taith (papur 3).</p> <p>3.2 Cyflwynwyd y Wybodaeth ychwanegol ganlynol i'r Bwrdd:</p> <p>3.2a Ar hyn o bryd mae tîm Taith wrthi'n llenwi manylion y Llythyrau Cytundeb Grant ar gyfer Llwybr 1 2023. Cyflwynwyd cymhariaeth o niferoedd y ceisiadau am Lwybr 1 yn 2022 a 2023 i'r Bwrdd, ac roedd hyn yn amlinellu'r ymgeiswyr hynny a oedd yn aflwyddiannus yn 2022 ond yn llwyddiannus yn 2023. Mae'r cynnydd yn nifer y ceisiadau yn ganlyniad cadarnhaol, yn enwedig gan y sector Ysgolion.</p> <p>3.2b Nododd y Bwrdd y dylid cynnwys cyfrifon rheoli ym mhapurau'r Bwrdd fel bod diweddariadau rheolaidd ar sefyllfa ariannol Taith. Dylid hefyd gynnal cyfarfod eithriadol ar gyfer llofnodi y cyfrifon blynyddol.</p>	A2 — DX i weithio gyda Chorff Gweithredol Rhaglen Taith i sefydlu diweddariadau ariannol rheolaidd ar gyfer y Bwrdd, gan gynnwys cyfarfod i lofnodi'r cyfrifon blynyddol.
4.	<p>I'w Gymeradwyo: Galwad Cyllid Hyrwyddwyr Taith (2023) (EM & LKD)</p> <p>4.1 Ymunodd y tri aseswr annibynnol (CT, RS, MA) â'r cyfarfod, yn ogystal â HC (Swyddog Grantiau Taith).</p> <p>4.2 Rhoddwyd crynodeb Alwad Cyllid Hyrwyddwyr Taith i'r Bwrdd (papur 4).</p> <p>4.3 Cyflwynwyd y Wybodaeth ychwanegol ganlynol i'r Bwrdd:</p> <p>4.3a Bydd y sefydliad addas o'r radd uchaf yn cael ei argymhell am gyllid. Dylid nodi na all sefydliad gael cyllid ar gyfer Hyrwyddwyr Taith a phrosiect Llwybr ill dau; mae un o'r sefydliadau sydd wedi cael ei argymhell am gyllid, hefyd wedi cael cais llwyddiannus Llwybr 1 2023. Mae cronfa wrth gefn ar gyfer y sector Addysg Oedolion ar gyfer yr alwad cyllid hon gan y gall y sefydliad o'r radd uchaf ddewis bwrw ymlaen â dyfarnu cyllid ar gyfer eu cais am Lwybr.</p> <p>4.3b Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhellion yn ffurfiol i ariannu Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru a Diverse Cymru yn llawn.</p> <p>4.3c Nid oedd unrhyw sefydliadau cymwys o fewn y sector Ysgolion, felly mae gan Gorff Gweithredol Rhaglen Taith rai awgrymiadau ar sut i lenwi'r bwlc hwn. Un yw ceisio cael awdurdodau lleol i weithio'n uniongyrchol gydag ysgolion trwy broses secondio athrawon trwy gynllun pilot gyda nifer fach o awdurdodau lleol. Yr opsiwn arall fyddai dod ag adnoddau ychwanegol o fewn tîm Taith ar gontract tymor penodol i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ymgysylltu ag ysgolion.</p>	<p>D2 – Cymeradwyodd y Bwrdd argymhellion Hyrwyddwyr Taith yn ffurfiol.</p> <p>A3 – Corff Gweithredol Rhaglen Taith i archwilio'r opsiwn ynghylch a allai awdurdodau lleol gynghori'r sector Ysgolion.</p>

4.3c(i)	<p>Awgrymodd y Bwrdd y dylai tîm Gweithredol Rhaglen Taith archwilio'r opsiwn ynghylch a allai awdurdodau lleol ymgymryd â'r swyddogaeth hon.</p> <p>Gadawodd y tri aseswr annibynnol (CT, RS, MA) a HC y cyfarfod.</p>	
<p>5.</p> <p>5.1</p> <p>5.1a</p> <p>5.1b</p> <p>5.1b(i)</p> <p>5.1b(ii)</p> <p>5.1b(iii)</p> <p>5.1b(iv)</p> <p>5.1c</p>	<p>I'w Draffod a'i Gymeradwyo: Diweddariad Adolygiad Llywodraethu (SG ac EM)</p> <p>Darparwyd diweddariad ar y tri cham blaenoriaethol y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod Bwrdd RhCDRh Cyf ar 13 Ebrill 2023 (papur 5):</p> <p>Recriwtio Cyfarwyddwr Anweithredol: Wedi'i gwblhau. Etholwyd y ddau Gyfarwyddwr Annibynnol newydd (Gorffennaf 13 2023).</p> <p>Sefydlu'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) (i'w gymeradwyo): Rhoddwyd cylch gorchwyl drafft yr ARAC i'r Bwrdd (papur 5, Atodiad 1).</p> <p>Trafododd y Bwrdd a oedd angen y pwyllgor hwn a beth fyddai ei werth. Codwyd pwynt bod yn rhaid i'r Cadeirydd feddu ar brofiad addas, fel arfer yn gyfrifydd cymwys, ac ar hyn o bryd, nid oes cyfarwyddwr annibynnol sy'n gyfrifydd cymwys.</p> <p>Trafododd y Bwrdd a ellid ymdrin â'r pwnc hwn o fewn cyfarfodydd y Bwrdd ac, os felly, byddai angen iddo fod yn glir bod y lefelau hynny o sicrwydd a'r mecanweithiau i wneud hyn yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfodydd y Bwrdd.</p> <p>Amlinellodd Corff Gweithredol Rhaglen Taith fod gwahanol fathau o senarios gyda derbynwyr grantiau unigol o ran gwariant, ac mae angen sicrhau y ceir lefelau priodol o drafodaeth o amgylch hynny.</p> <p>Ni chymeradwyodd y Bwrdd sefydlu ARAC. Dylai Corff Gweithredol Rhaglen Taith drefnu cyfarfod â'r Cadeirydd i drafod a ellir ailddiffinio ARAC fel is-bwyllgor neu ei integreiddio yng nghyfarfodydd y Bwrdd.</p> <p>Adolygiad Bwrdd Cyngori Taith: Cyflwynwyd y cynllun i'r Bwrdd Cyngori ar 21 Mehefin, a chytunwyd ar yr egwyddorion ynddo; i bob diben, mae'r gwaith o'i weithredu wedi dechrau. O hyn tan fis Medi, bydd Corff Gweithredol Rhaglen Taith yn cynnal trafodaethau unigol gydag aelodau'r Bwrdd Cyngori. Yng nghanol mis Medi, cyflwynir y model terfynol drwy weithdrefn ysgrifenedig i'r Bwrdd ei gymeradwyo.</p>	<p>A4 – Corff Gweithredol a Chadeirydd Rhaglen Taith i drafod sut y gellir cwmpasu Archwilio, Sicrwydd a Risg yn briodol.</p>
<p>6.</p> <p>6.1</p> <p>6.1a</p> <p>6.1b</p>	<p>Er Gwybodaeth: Diweddariad Cymru Fyd-eang</p> <p>Rhoddwyd crynodeb wedi'i ddiweddarau i'r Bwrdd ar Gymru Fyd-eang (Cam 3) (papur 6).</p> <p>Codwyd pwynt y byddai'n ddefnyddiol gweld sut yr ydym yn goruchwilio'r berthynas â Phrifysgolion Cymru a'r fframwaith sydd ar waith ar gyfer monitro gwariant a chyflawni targedau. Argymhellwyd bod Cymru Fyd-eang yn darparu cynllun gweithredu i Taith o'r hyn y maent yn defnyddio'r arian ar ei gyfer, yn ogystal â chanlyniadau, fel y gellir sicrhau bod nodau Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni.</p> <p>Nodwyd y bydd angen cynnal asesiad o Gymru Fyd-eang ar ryw adeg.</p>	
7.	Er Gwybodaeth: Diweddariad ar Berfformiad Derbynwyr Grantiau (EM a HG)	

7.1	Rhodddwyd crynodeb i'r Bwrdd ar Berfformiad y Derbynwyr Grantiau (papurau 7, 7a, 7b).	
7.1a	Codwyd pwynt y byddai'n ddefnyddiol cael ychydig o naratif y tu ôl i'r rhifau a fydd yn helpu i ddarparu rhywfaint o gyd-destun. Mae Corff Gweithredol Rhaglen Taith wedi dechrau gweithio ar archwilio templedi ar gyfer adroddiadau radar ar gyfer prosiectau gwerth uwch a risg uwch, fel y gallant geisio llunio adroddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf i roi sicrwydd o'r hyn sydd y tu ôl i'r ffigurau hynny.	
8.	I'w Drafod: Cofrestr Risg Taith (LKD)	
8.1	Dylid nodi nad oes ond un risg goch ac mae hynny ar fin cael ei liniaru i ambr.	
8.2	Er budd amser, ni thrafodwyd yr eitem hon. Dylid trafod yr eitem hon fel pwynt cynharach yn y cyfarfod nesaf.	
9.	Unrhyw Fater Arall	
9.1	Mae Corff Gweithredol Rhaglen Taith wedi'i enwebu am wobwr ym Mhrifysgol Caerdydd am Ragoriaeth mewn Arloesi a Menter.	
10.	Dyddiad y cyfarfod nesaf	
10.1	12 Hydref 12:30 – 14:30	

5. DOGFENNAU SYDD WEDI'U CYFLWYNO

Eitem Agenda	Rhif y Papur	Teitl
2	2a, 2b, 2c	Cofnodion a champau gweithredu o gyfarfodydd Bwrdd RhCDRh Cyf ar 13 Ebrill a 20 Mehefin 2023
3	3	Diweddariad gan Gorff Gweithredol Rhaglen Taith
4	4, 4a, 4b, 4b (i), 4c	Galwad Cyllid Hyrwyddwyr Taith (2023)
5	5	Diweddariad Adolygiad Llywodraethu
6	6	Diweddariad Cymru Fyd-eang
7	7, 7a, 7b	Diweddariad ar Berfformiad Derbynwyr Grantiau
8	8, 8a	Cofrestr Risg Taith

6. CYMERADWYO CYNIGION A DOGFENNAU ATEGOL

Ar ôl ystyriaeth briodol a gofalus, a chan gofio dyletswydd statudol y Cyfarwyddwyr i hyrwyddo llwyddiant y cwmni fel y manylir yn Neddf 2006, **PENDERFYNWYD**:

- 6.1 Dylid ymrwymo i'r Cynigion a'r dogfennau a gyflwynwyd yn ddidwyll ac er budd pennaf y Cwmni;

7. **FFEILIO**

Cyfarwyddwyd yr Ysgrifennydd i ffeilio'r canlynol gyda'r Cofrestrydd Cwmniau:

7.1 Ni chyfarwyddwyd unrhyw ffeilio.

8. **DIWEDD Y CYFARFOD**

8.1 Nid oedd unrhyw fusnes pellach, felly daeth y cyfarfod i ben.

CADEIRYDD Y CYFARFOD

Atodiad i'r Cofnodion

Atodiad A



**Rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol Cyf
Cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr
13 Ebrill 2023, 11.30am - 1.30pm
Log Gweithredu**

Camau gweithredu	Dyddiad y Cyfarfod	Statws a sylwadau
A15 - Rhoi dyddiadau yn y dyddiadur i lofnodwyr fod ar gael i lofnodi'r ceisiadau talu angenrheidiol.	21-10-22	Wedi'i weithredu - mae Laura wedi'i hychwanegu fel lofnodwr.
A2 – Y Bwrdd i awgrymu ffyrdd sut yr hoffent symud argymhelliad 10 y cynllun gweithredu Llywodraethu yn ei flaen.	10-02-2023	Parhaus — argymhellodd y Bwrdd y byddai cinio i drafod gwaith neu gyfarfod cynllunio wyneb yn wyneb yn fwy cynhyrchiol.
A3a – Corff Gweithredol Rhaglen Taith i ofyn am fynediad at Ddesg y Cyfarwyddwr.	10-02-2023	Wedi'i weithredu — dylai pob aelod bellach allu cael mynediad at Ddesg y Cyfarwyddwr o dan Taith.
A6 – Corff Gweithredol Rhaglen Taith i ddatblygu a sicrhau bod data ar gael i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr.	10-02-2023	Parhaus
A2 – Corff Gweithredol Rhaglen Taith i ystyried ffyrdd o weithio gyda phrifysgolion Cymru ar ehangu cyfranogiad.	13-04-2023	Parhaus – ymdrinnir â hyn o dan eitem 5

A3b – Swyddog Gweithredol Rhaglen Taith i ddiwygio'r panel arfaethedig i'r Cadeirydd neu'r sawl a enwebir ganddo.	13-04-2023	Wedi'i gwblhau
A4 – Corff Gweithredol Rhaglen Taith i gyflwyno cynnig diwygiedig ar gyfer yr is-bwyllgorau.	13-04-2023	Parhaus – ymdrinnir â hyn o dan eitem 5
A5a – LKD i weithio gydag LD ar y naratif ynghylch targedau ar gyfer adroddiad chwarterol Llywodraeth Cymru.	13-04-2023	Wedi'i gwblhau
A5b – Corff Gweithredol Rhaglen Taith i wirio'r taliad ac israddio Cymru Fyd-eang ar y Gofrestr Risg os yw'n briodol.	13-04-2023	Wedi'i gwblhau
A6 – Corff Gweithredol Rhaglen Taith i gwblhau adroddiad Llywodraeth Cymru i'r Cadeirydd ei lofnodi erbyn 19 Ebrill a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 20 Ebrill.	13-04-2023	Wedi'i gwblhau